DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

TEITL:	**DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026**
Gan:	Yr Uned Polisi Cyfraith Trosedd
Dyddiad cyhoeddi:	I'w gadarnhau
Dyddiad gweithredu:	6 Tachwedd 2026
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:	Ellis Jordan, Jennifer Minford
Pwnc eang:	Herwgydio plant, pornograffi
Is-gategori:	- Cadw plentyn dramor heb y caniatâd priodol - Cyhoeddi a meddu ar bornograffi sy'n portreadu tagu neu fygu, rhyw rhwng aelodau penodol o'r teulu, neu weithgaredd rhywiol gydag unrhyw un o dan 16 mlwydd oed neu'n esgus bod o dan 16 mlwydd oed

DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

Cyfeirir y cylchlythyr hwn at y canlynol	Yr Arglwydd Brif Ustus, Ustusiaid y Goruchaf Lys, Llywydd Is-adran Mainc y Frenhines, Meistr y Rholiau, Uwch Farnwr Llywyddol, Arglwyddi Ustusiaid Apêl, Cadeirydd y Coleg Barnwrol, Barnwyr yr Uchel Lys, Barnwyr Llywyddol, Barnwyr Preswyl, Barnwyr Llys y Goron, Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), Cadeiryddion Ustusiaid, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EF, Prif Swyddogion Heddlu Cymru a Lloegr, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, Gwasanaeth Heddlu'r Alban, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaeth Carchardai EF, Prif Weithredwr Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, Prif Weithredwr Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, Prif Erlynwyr y Goron, Penaethiaid Is-adran Swyddfa Erlyn Cyllid a Thollau, Prif Swyddogion Prawf, Cyfarwyddwr Troseddu, Penaethiaid Troseddu, Rheolwyr Clwstwr, Unedau Cymorth Rhanbarthol, Rheolwyr Llysoedd – Llysoedd Ynadon, Clercod i'r Ustusiaid, DVLA, DOENI, DVA Gogledd Iwerddon, Gwasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon, y Cyngor Dedfrydu.
Anfonir copïau at y canlynol:	Cyngor y Barnwyr Cylchdaith, Cymdeithas yr Ynadon, Cymdeithas Clercod Ustusiaid, Cofrestrydd Apeliadau Troseddol, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Uwch-arolygwyr Heddlu Cymru a Lloegr, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Bar Troseddol, Canolfannau Cyngor ar Bopeth, Coleg Barnwrol Awdurdodau Lleol, cyfarwyddwyr darparu GLITEF, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, Bwrdd Safonau'r Bar, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol, ILEX Professional Standards Ltd, y Rheoleiddiwr Rheoli Hawliadau, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Ombwdsmon Cyfreithiol, y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol, Trysorlys EF, Cymdeithas y Bar Anafiadau Personol, Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol, Cymdeithas Cyfreithwyr Damweiniau Cerbydau Modur, Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant, Cymdeithas Yswirwyr Prydain, Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth, Cyngor y Barnwyr Cylchdaith, Cymdeithas yr Ynadon, Cymdeithas Clercod Ustusiaid, Cofrestrydd Apeliadau Troseddol, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Prif Swyddogion Prawf, Cadeiryddion Awdurdodau'r Heddlu, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Byrddau Diogelu Plant Lleol, Cymdeithas y Bar Cynllunio a'r Amgylchedd, yr Arolygiaeth Gynllunio, Awdurdodau Cynllunio Lleol.

DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

Pwrpas y cylchlythyr hwn 4
Cefndir 4
Crynodeb o'r troseddau newydd 6
Dolenni defnyddiol 9
Manylion Cyswllt 9

DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

Pwrpas y cylchlythyr hwn

1. Pwrpas y cylchlythyr hwn yw hysbysu derbynwyr o gychwyn adran 137 Deddf Troseddau a Phlismona 2026[1] (Deddf 2026) a ddaw i rym drwy Ddeddf Troseddu a Phlismona (Cychwyn Rhif 4) 2026[2] ar 6 Tachwedd 2026.

2. Mae Adran 137 Deddf 2026 yn ychwanegu isadran newydd (1A) at adran 1 o Ddeddf Herwgydio Plant 1984, gan ei wneud yn drosedd i berson sy'n gysylltiedig â phlentyn dan 16 mlwydd oed i gadw'r plentyn hwnnw y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU) heb ganiatâd priodol, lle cafodd y plentyn ei gymryd neu ei anfon dramor gyda chaniatâd o'r fath yn wreiddiol. Mae'r drosedd yn cau bwlch yn y gyfraith bresennol mewn perthynas â chadw plant dramor heb ganiatâd, yn dilyn eu hymadawiad cyfreithlon yn y lle cyntaf.

3. Mae Adrannau 104, 106 a 107 Deddf 2026 yn ychwanegu adrannau newydd 67A i 67J at Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 i droseddoli cyhoeddi a meddu ar ddelweddau pornograffig sy'n portreadu tagu neu fygu, rhyw treiddgar rhwng aelodau penodol o'r teulu neu bobl sy'n esgus bod yn perthyn yn y ffyrdd hynny, a gweithgaredd rhywiol sy'n ymwneud â pherson o dan 16 mlwydd oed neu'n esgus bod o dan 16 mlwydd oed. Mae'r troseddau newydd yn ddarostyngedig i amddiffyniadau a chosbau penodol.

Cefndir

Herwgydio Plentyn

4. Ceir diddordeb cryf ymysg y cyhoedd mewn sicrhau nad yw plant yn cael eu tynnu o'r DU, nac yn cael eu cadw y tu allan i'r DU heb ganiatâd priodol (gan gynnwys caniatâd y llys lle bo'n berthnasol). Nod y drosedd yw diogelu plant rhag herwgydio, diogelu hawliau'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant, a chynnal hawliau gwarchodaeth.

5. Mae'r drosedd bresennol ar gyfer herwgydio plant gan rieni wedi'i chynnwys yn adran 1 o Ddeddf Herwgydio Plant 1984 (Deddf 1984).[3] Mae'n ei gwneud yn drosedd i riant neu berson arall cysylltiedig gymryd neu anfon plentyn dan 16 mlwydd oed allan o'r DU heb ganiatâd personau penodedig, neu'r llys.

6. At ddibenion y drosedd newydd, bydd ystyr "caniatâd priodol" yr un fath â'r hyn a nodir o dan y drosedd bresennol o herwgydio plant gan rieni yn adran 1 o Ddeddf 1984 (gweler adran 1(3)). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu caniatâd pob person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu ganiatâd y llys lle bo angen.

7. Daeth bwlch yn y gyfraith i'r amlwg yn dilyn penderfyniad yr Uchel Lys yn achos *R (Nicolaou) v Llys Ynadon Redbridge* [2012].[4] Dyfarnodd yr Uchel Lys fod y geiriau "cymryd neu anfon" yn adran 1 o Ddeddf 1984 yn cyfeirio at y weithred o gymryd neu

[1] Deddf Troseddu a Phlismona 2026
[2] Rheoliadau Deddf Troseddu a Phlismona 2026 (Cychwyn Rhif 4) 2026
[3] Deddf Herwgydio Plant 1984
[4] Nicolaou, R (on the application of) v Redbridge Magistrates' Court & Anor [2012] EWHC 1647 (Admin) (20 Mehefin 2012)

anfon y plentyn allan o'r DU ac nid ydynt yn ymestyn at gadw'r plentyn hwnnw dramor wedi hynny. O ganlyniad, lle bo rhiant wedi mynd â phlentyn dramor yn gyfreithlon (er enghraifft gyda chaniatâd y rhiant arall neu berson gyda chyfrifoldeb tebyg, neu gyda chaniatâd y llys), nid oedd yn drosedd o dan adran 1 o Ddeddf 1984 i gadw'r plentyn hwnnw dramor y tu hwnt i'r cyfnod a gytunwyd neu a awdurdodwyd.

8. Yn dilyn hynny, bu Comisiwn y Gyfraith yn ystyried y mater hwn fel rhan o'i adolygiad o herwgydio a throseddau cysylltiedig. Yn ei adroddiad yn 2014, *Simplification of the Criminal Law: Kidnapping and Related Offences*[5], argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid diwygio Deddf 1984 i gwmpasu sefyllfaoedd lle mae person sy'n gysylltiedig â phlentyn yn cludo neu'n anfon y plentyn hwnnw dramor, ond wedyn yn ei gadw neu'n ei gadw'n gaeth y tu allan i'r DU heb y caniatâd angenrheidiol, neu'n groes i'r amodau lle rhoddwyd y caniatâd hwnnw (gweler Argymhelliad 4: Troseddoli Cadw Plentyn gan Riant).

9. Roedd y Llywodraeth yn derbyn yr angen i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. O dan adran newydd 1(1A) o Ddeddf Herwgydio Plant 1984, bydd person sy'n gysylltiedig â phlentyn o dan 16 mlwydd oed yn cyflawni trosedd os bydd y plentyn yn cael ei gymryd neu ei anfon allan o'r DU gyda'r caniatâd priodol, ac ar unrhyw adeg wedi i'r plentyn gael ei gymryd neu ei anfon, os bydd y person yn cadw'r plentyn hwnnw y tu allan i'r DU heb y caniatâd priodol. Bwriad y drosedd newydd felly yw sicrhau bod y gyfraith yn berthnasol yn gyson pan fo plentyn yn cael ei gludo dramor yn anghyfreithlon a phan fo plentyn yn cael ei gadw dramor yn anghyfreithlon yn dilyn ymadawiad cyfreithlon. Ei nod yw darparu diogelu pellach yn erbyn herwgydio plentyn gan riant a chryfhau'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymateb i'r achosion mwyaf difrifol o herwgydio plentyn gan riant yn rhyngwladol.

Casgliad

10. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y drosedd newydd yn cau bwlch hir oes yn y gyfraith drwy sicrhau bod tynnu plentyn o'r DU ar gam a chadw plentyn dramor ar gam yn dilyn ymadawiad cyfreithlon, yn gallu arwain at atebolrwydd troseddol lle bo'n briodol. Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n gallu codi mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig ac yn glir nad yw'n fwriad i'r drosedd newydd hon dorri ar draws mesurau sifil.

11. Bydd dioddefwyr cam-drin domestig hefyd yn parhau i elwa o ystod o amddiffyniadau a chefnogaeth, gan gynnwys llochesi, llety diogel, gwaharddebau amddiffynnol a'r mesurau diogelu ehangach a ddarperir drwy Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

Cyhoeddi a meddu ar bornograffi dybryd

12. Roedd Adolygiad Pornograffi Annibynnol y Farwnes Bertin, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025, yn nodi pornograffi niweidiol penodol sy'n gallu dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn ymddwyn mewn perthnasoedd rhywiol, megis pornograffi sy'n portreadu tagu, neu a allai gyfrannu at ddiddordeb mewn ymddygiad a fyddai fel arall yn anghyfreithlon

[5] Law Commission Simplification of Criminal Law: Kidnapping and Related Offences HC 797

mewn bywyd go iawn, megis pornograffi sy'n portreadu llosgach neu gam-drin plant yn rhywiol.[6]

13. Wrth basio Deddf Troseddau a'r Heddlu 2026, cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y diwygiadau mewn perthynas â throseddoli portreadau niweidiol mewn pornograffi, yn ogystal ag ar gyfer gweithredu ehangach i sicrhau bod rhyw fath o safonau rheoleiddio ar gyfer pornograffi.

14. Mae trechu trais yn erbyn menywod a merched yn un o brif amcanion y Llywodraeth hon, gydag uchelgais i'w haneru o fewn degawd. Gan gydnabod dylanwad posibl pornograffi ar agweddau ac ymddygiadau all-lein, mae'r Llywodraeth yn benderfynol o fynd i'r afael â chynnwys sy'n arbennig o beryglus neu ddiraddiol. Mae troseddoli cyhoeddi a meddu ar rai mathau o bornograffi yn rhan bwysig o'n ffocws ehangach ar atal trosedd a cham-drin.

15. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod pornograffi sy'n portreadu tagu yn gyffredin iawn ar-lein, ac mae tystiolaeth fod tagu yn ystod gweithredoedd rhyw yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn bywyd go iawn – yn enwedig ymysg pobl ifanc nad ydynt o reidrwydd yn ymwybodol o'r niwed difrifol mae'n gallu ei achosi.

16. Rydym hefyd yn gwybod bod pryderon y gallai ymlediad pornograffi ar thema llosgach gyfrannu at agweddau niweidiol, yn enwedig lle mae'n normaleiddio cam-drin plant yn rhywiol, sy'n hynod niweidiol, ac mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen mynd i'r afael â phornograffi sy'n dynwared cam-drin plant yn rhywiol ac mewn perygl o'i normaleiddio.

17. Trwy gydnabod y niwed y gall rhai mathau o bornograffi ei achosi o safbwynt siapio ymddygiad all-lein, rydym yn troseddoli cyhoeddi a meddu ar gynnwys arbennig o ddifrifol.

Perthynas gyda diogelwch ar-lein

18. Bydd y troseddau newydd hyn yn cael eu rhestru fel troseddau blaenoriaeth yn Atodlen 7 i Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. Mae hyn yn golygu, yn unol â chanllawiau a Chod Ymarfer Ofcom, bydd yn ofynnol i blatfformau gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i atal defnyddwyr yn y DU rhag dod ar draws cynnwys niweidiol o'r fath.

Crynodeb o'r troseddau newydd

Herwgydio plant

19. Mae Adran 137 o Ddeddf 2026 yn diwygio Deddf 1984 yng Nghymru a Lloegr drwy greu trosedd newydd o gadw plentyn y tu allan i'r DU ar gam, yn dilyn ymadawiad cyfreithiol y plentyn yn y lle cyntaf o'r DU. Mae Deddf 2026 yn diwygio Deddf 1984 fel a ganlyn:

[6] Adolygiad pornograffi annibynnol

DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

- Mae Adran 137(2)(a) yn ychwanegu isadran newydd (1A) at adran 1 o Ddeddf 1984. O dan y drosedd newydd, mae person sy'n gysylltiedig â phlentyn dan 16 mlwydd oed yn cyflawni trosedd:

  (a) pan fo'r plentyn yn cael ei gymryd neu ei anfon allan o'r DU gyda'r caniatâd priodol; ac
  (b) ar unrhyw adeg wedyn, bod y person yn cadw'r plentyn hwnnw y tu allan i'r DU heb y caniatâd priodol.

- Mae Adran 137(2)(b) yn diwygio adran 1(4) o Ddeddf 1984 i ymestyn yr eithriadau statudol presennol i'r drosedd newydd o gadw plentyn y tu allan i'r DU. O ganlyniad, nid yw person yn cyflawni'r drosedd wrth gadw'r plentyn y tu allan i'r DU heb dderbyn caniatâd priodol:

  (a) os ydynt wedi cael eu henwi yng ngorchymyn trefniadau'r plentyn fel person y dylai'r plentyn fyw gydag ef, a bod y plentyn yn cael ei gadw y tu allan i'r DU am lai na mis; neu
  (b) os mai'r person yw gwarcheidwad arbennig y plentyn, a bod y plentyn yn cael ei gadw y tu allan i'r DU am lai na thri mis.

- Mae Adran 137(2)(c) yn diwygio adran 1(4A) o Ddeddf 1984 fel nad yw'r eithriadau yn adran 1(4) yn berthnasol pan fo cadw'r plentyn y tu allan i'r DU yn torri gorchymyn a wnaed o dan Ran II Deddf Plant 1989.

- Mae Adran 137(2)(d) yn diwygio adran 1(5A)(b) o Ddeddf 1984 fel nad yw'r amddiffyniad yn adran 1(5)(c), mewn perthynas â gwrthod caniatâd yn afresymol, yn berthnasol pan fo'r person yn torri gorchymyn a wnaed mewn llys yn y DU drwy gadw'r plentyn y tu allan i'r DU.

- Mae Adran 137(3) yn gwneud diwygiad canlyniadol i adran 11(3) o Ddeddf 1984. Mae Adran 11(3) yn nodi bod cyfeiriadau a wneir tuag at "herwgydio" mewn deddfiadau penodol a nodir i gael eu dehongli i olygu nad ydynt yn cynnwys y drosedd bresennol o dan adran 1 o Ddeddf 1984. Mae adran 137(3) yn disodli'r cyfeiriad at "adran 1" gydag "adran 1(1)", fel bod yr eithriad hwn wedi'i gyfyngu i'r drosedd bresennol o dan adran 1(1) ac nad yw'n ymestyn i'r drosedd newydd o dan adran 1(1A).

- Mae adran 137(4) yn diwygio'r Atodlen i Ddeddf 1984 i sicrhau bod yr addasiadau presennol i adran 1 mewn perthynas â phlant mewn achosion penodol yn berthnasol yn yr un modd i'r drosedd newydd yn adran 1(1A) yn yr un modd â'r drosedd bresennol yn adran 1(1).

- Mae adran 137(5) yn nodi bod y diwygiadau a wneir yn adran 137 yn berthnasol dim ond pan fo plentyn yn cael ei gymryd neu ei anfon allan o'r DU ar y dyddiad y mae adran 137 o Ddeddf 2026 yn dod i rym, neu wedi hynny.

DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

Pornograffi

20. Mae Deddf 2026 yn diwygio Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (CIJA) drwy greu troseddau newydd ar gyfer cyhoeddi neu feddu ar ddelweddau pornograffig penodol. At y dibenion hyn, mae Meddiant yn cadw ei ystyr arferol a bydd person yn cyhoeddi delwedd os bydd yn ei rhoi, neu'n ei gwneud ar gael i berson arall mewn unrhyw ffordd arall.

- Mae adran 104 o Ddeddf 2026 ychwanegu adrannau newydd 67A i 67D at y CJIA. Mae adran 67A yn ei gwneud yn drosedd i gyhoeddi neu feddu ar ddelwedd bornograffig sy'n portreadu person yn tagu neu'n mygu person arall, mewn modd diamwys a realistig, lle byddai person rhesymol sy'n edrych ar y ddelwedd yn credu bod y personau sy'n cael eu portreadu'n wir. Mae adrannau 67B i 67D yn gwneud darpariaeth gysylltiedig mewn perthynas ag amddiffyniadau, cosbau a rheithfarn wahanol.

- Mae adran 106 o Ddeddf 2026 yn ychwanegu adrannau newydd 67E i 67G at y CJIA. Mae adran 67E yn ei gwneud yn drosedd i gyhoeddi neu feddu ar ddelwedd bornograffig sy'n portreadu gweithgaredd rhyw treiddgar mewn modd diamwys a realistig rhwng personau y byddai person rhesymol yn credu eu bod yn wir ac yn perthyn i'w gilydd, neu'n esgus eu bod yn perthyn, mewn ffyrdd a nodir. Mae'r perthnasoedd a nodir yn cynnwys rhiant, mam-gu neu dad-cu, plentyn, ŵyr neu wyres, brawd, chwaer, hanner brawd, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai a nith. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys llys-berthnasoedd neu berthnasoedd maeth penodol lle mae o leiaf un o'r unigolion dan 18 mlwydd oed neu'n esgus bod o dan 18 mlwydd oed. Mae'r adran newydd 67E(1)(d) yn egluro'n glir y gellid ystyried unrhyw sain neu wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ddelwedd wrth ystyried p'un a fyddai person rhesymol yn credu bod pobl yn perthyn yn y modd hwnnw, neu'n esgus bod yn perthyn. Mae adrannau 67F a 67G yn gwneud darpariaeth gysylltiedig mewn perthynas ag amddiffyniadau a chosbau.

- Mae adran 107 o Ddeddf 2026 yn ychwanegu adrannau newydd 67H i 67J at y CJIA. Mae adran 67H yn ei gwneud yn drosedd i gyhoeddi neu feddu ar ddelwedd bornograffig y byddai person rhesymol, o edrych ar y ddelwedd ac o ystyried unrhyw sain neu wybodaeth gysylltiedig, yn credu ei bod yn portreadu gweithgaredd rhyw mewn modd diamwys a realistig, gan gredu ei bod yn cynnwys pobl go iawn, a chredu ei bod yn cynnwys o leiaf un person sydd o dan 16 mlwydd oed, neu'n esgus bod o dan 16 mlwydd oed. Mae adran 67H(3) yn nodi na ddylid cymryd bod person yn esgus bod o dan 16 mlwydd oed lle byddai'n dybiedig eu bod o dan 16 mlwydd oed mewn gwirionedd yn y modd maen nhw'n esgus. Bwriedir y troseddau hyn i fynd i'r afael â deunydd pornograffig sy'n portreadu ymddygiad a fyddai'n anghyfreithlon pe byddai'n cael ei gyflawni mewn bywyd go iawn. Mae adrannau 67I a 67J yn gwneud darpariaeth gysylltiedig mewn perthynas ag amddiffyniadau a chosbau.

21. Mae'r troseddau hyn ond yn cwmpasu pornograffi a fyddai'n dangos pobl sy'n ymddangos eu bod yn wirioneddol, i berson rhesymol.

22. Y gosb uchaf ar gyfer meddiant fel y'i nodir yn adrannau 67C, 67G a 67J, yw:

- 2 flynedd o garchar ar gyfer pornograffi sy'n portreadu tagu neu fygu, neu weithgaredd rhywiol treiddgar rhwng perthnasoedd penodol;
- 3 blynedd o garchar ar gyfer pornograffi sy'n portreadu gweithgaredd rhywiol sy'n cynnwys person sydd o dan 16 mlwydd oed neu'n esgus bod o dan 16 mlwydd oed.

23. Y gosb uchaf ar gyfer cyhoeddi, a nodir hefyd yn adrannau 67C, 67G a 67J yw 5 mlynedd o garchar ar gyfer pob trosedd.

24. Mae amddiffyniadau ar gael ar gyfer y troseddau hyn o dan adrannau 67B, 67F a 67I. Er enghraifft, efallai y byddai gan berson amddiffyniad i'r troseddau meddiant a chyhoeddi os nad ydynt wedi gweld y ddelwedd yn flaenorol ac nad oeddent yn gwybod, neu nad oedd ganddynt achos i amau, bod y ddelwedd wedi'i chwmpasu gan y troseddau.

25. Ceir hefyd amddiffyniad pan fo'r person sy'n cyhoeddi neu'n meddu ar y ddelwedd wedi cymryd rhan yn uniongyrchol yn y weithred a ddangosir yn y ddelwedd a bod meini prawf eraill yn cael eu bodloni. Ar gyfer y troseddau meddiant, ceir amddiffyniad hefyd lle gallai person fod wedi anfon y ddelwedd heb i'r derbynnydd ofyn amdani (naill ai eu hunain neu drwy drydydd parti) a lle nad oedd y person wedi cadw'r ddelwedd am gyfnod afresymol.

26. Mae'r troseddau hefyd yn denu amddiffyniad o reswm cyfreithiol dros gyhoeddi neu feddu ar y ddelwedd.

27. Mae'r troseddau a gynhwysir o fewn adrannau 104, 106 a 107 yn Neddf 2026, wedi'u dynodi'n droseddau blaenoriaeth o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. O ganlyniad, bydd angen i wasanaethau rheoledig gynnal asesiadau risg perthnasol a rhoi systemau a phrosesau cymesur ar waith i atal defnyddwyr yn y DU rhag dod ar draws y cynnwys anghyfreithlon. Mae Ofcom yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth gyda fframwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

Dolenni defnyddiol

- Deddf Troseddu a Phlismona 2026
- Rheoliadau Deddf Troseddu a Phlismona 2026 (Cychwyn Rhif 4) 2026
- Deddf Herwygydio Plant 1984
- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008
- Deddf Diogelwch Ar-lein 2023

Manylion Cyswllt

Enw	Rhif ffôn	Uned	Cyfeiriad
Ellis Jordan Ellis.Jordan@justice.gov.uk	07580 906862	Yr Uned Polisi Cyfraith Trosedd	Llawr 7, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ

DEDDF TROSEDDU A PHLISMONA 2026

Herwgydio Plant, Pornograffi

CYLCHLYTHYR 2026/01

Jennifer Minford Jennifer.Minford@justice.gov.uk	07843836192	Yr Uned Polisi Cyfraith Trosedd	Llawr 7, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ